



# Clefydau Metabolig mewn Mamogiaid

Mae'r tri phrif glefyd metabolig mewn mamogiaid yn digwydd pan fo mwy o angen maeth, sef ar ddiwedd y cyfnod beichiogrwydd ac ar ddechrau'r cyfnod llaetha. Heb driniaeth gyflym, gall y mamogiaid farw, ac felly mae gofal da yn ystod y cyfnodau hyn yn hanfodol er mwyn cael cyn lleied o golledion â phosib. Elfen allweddol o reoli clefydau metabolig yw rheoli'r sgôr cyflwr corff (BCS) a maethiad.

## Tocsemia Beichiogrwydd (Clwy'r eira)

Achosir clwy'r eira, a welir ar ddiwedd y cyfnod beichiogrwydd, pan nad yw'r porthiant yn ddigon i ateb y galw uchel am faeth (mae (70% o dwf y ffetws yn digwydd yn ystod 8 wythnos olaf beichiogrwydd). Er ei fod yn digwydd yn aml yn y mamogiaid hynaf sy'n denau ac yn cario dau oen, gall hefyd ddigwydd mewn mamogiaid sy'n rhy dew.

### Arwyddion

- Bydd mamogiaid sy'n dioddef yn ymddangos yn ddryslyd ac yn cadw ar wahân i'r defaid eraill
- Maent yn ddiegni, heb archwaeth a gallant gollu eu golwg
- Gallant drigo.

### Triniaeth

- Dylid rhoi'r famog ar wahân i weddill y defaid a chynnig bwyd blasus a dŵr iddi
- Gall triniaeth â phropylen glycol a/neu bigiad glwcos mewnwythiennol fod yn llwyddiannus os yw'r ddafad yn dal i allu cerdded pan fo'r driniaeth yn dechrau
- Bydd pigiad glwocorticoid yn codi lefel y glwcos yn y gwaed; fodd bynnag gall hefyd beri ŵyna ar ddiwedd y cyfnod beichiogrwydd.



Mae angen archwilio'r mamogiaid yn rheolaidd ar gyfer arwyddion o wyna neu erthylu oherwydd efallai eu bod yn rhy wan i fwrw oen heb gymorth.

## Y Dwymyn Laeth

Mae'r dwymyn laeth yn cael ei hachosi gan ddiffyg calsiwm yn y gwaed ac mae'n digwydd fel arfer ar ddiwedd beichiogrwydd ac ar ddechrau'r cyfnod llaetha pan fo fwyaf o angen calsiwm.

### Arwyddion

- Bydd y famog yn wan ac yn methu sefyll.
- Bydd y rwmn yn rhoi'r gorau i weithio ac yn aml bydd y trwyn yn rhedeg
- Heb driniaeth, gall y famog syrthio i goma a thrigo o fewn 24 awr.

### Triniaeth

- Rhoi 20-40 ml o doddiant calsiwm boroglwconad yn araf dros 30 – 60 eiliad. Mae hwn ar gael mewn siopau amaethyddol, ond dylid ceisio cyngor gan filfeddyg
- Bydd y famog yn torri gwynt rhwng munud a dwy funud ar ôl y pigiad ac yn aml bydd yn codi'n gyflym ar ei thraed ac yn cerdded i ffwrdd o fewn pum munud
- Dewis arall yw rhoi pigiad isgroenol o 60 – 80 ml o hydoddiant 40% o foroglwconad calsiwm mewn dau neu dri man dros y bilen thorasig y tu ôl i'r ysgwydd; gall gymryd hyd at bedair awr cyn i'r famog ymateb.

## Dera'r Borfa

Bydd y ddera neu ddera'r borfa yn digwydd yn y gwanwyn. Mae'n cael ei achosi pan fo galw cynyddol am borthiant a dim digon o fagnesiwm yn y porthiant i ddiwallu gofynion yr anifail. Yn aml, caiff ei achosi gan straen sy'n gysylltiedig â chyfnod sydyn o dywydd oer a gwlyb a'r anifeiliaid ar borfa fras neu borfa â chanran uchel o botash.

Bydd y ddera yn digwydd mewn mamogiaid yn ystod y mis cyn neu ar ôl wyna, yn enwedig ar ôl wyna. Yn aml, bydd defaid yn dioddef o'r dwymyn laeth a / neu o brinder siwgr yn y gwaed hefyd, a dylid eu trin ar gyfer y tri chyflwr.

### Arwyddion

- Yn fynych, bydd y famog yn trigo, ond ambell waith bydd yn ymddangos yn aflonydd, yn crynu ac yn cerdded yn ansad
- Bydd wedyn yn gorwedd a bydd ei choesau'n symud yn ddigymell a bydd ewyn yn dod o'i cheg.

### Triniaeth

- Rhowch driniaeth â phigiad isgroenol o sylffad magnesiwm a phigiad mewnwythiennol araf o gymysgedd calsiwm/magnesiwm a decstros.

## Rheoli clefydau metabolig

- Nodwch sgôr cyflwr corff y mamogiaid trwy gydol y cyfnod beichiogrwydd a chywirwch eu diet yn ôl eu gofynion maeth
- Mewn diadelloedd mawr bydd rhannu'r mamogiaid yn grwpiau yn ôl nifer yr ŵyn mae pob un yn eu cario yn caniatáu darparu dietau priodol
- Gall cymryd samplau gwaed ar gyfer proffil metabolig rhwng 2 a 3 wythnos cyn wyna fod o gymorth
- Rheolwch y borfa pan fydd y mamogiaid yn cael eu troi allan
- Dylid trafod ychwanegu mwynau defaid safonol gyda'ch milfeddyg. Gall ychwanegu gormod, neu ychwanegu pan nad oes angen, achosi niwed

